



Ein cyf/Our ref RE/675/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 22

Annwyl Peredur,

Yn ein cyfarfod fis Tachwedd diwethaf, gwnaethom drafod y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru nodi ffordd arall o gytuno ar rai o'r newidiadau a gynigir gan y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru drafft, a chyflwyno'r newidiadau hynny. Mae fy swyddogion wedi trafod y mater hwn gyda chydweithwyr yn Archwilio Cymru ac maent o'r farn nad oes dim y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol.

Byddwch yn ymwybodol, o'n sgysiau blaenorol, bod Llywodraeth Cymru yn gorfod blaenoriaethu adnoddau i gyflawni rhaglen ddeddfwriaethol brysur iawn. Mae digwyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi dwysáu'r angen hwn i flaenoriaethu adnoddau. Felly, hyd y gellir rhagweld, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu rhyddhau adnoddau polisi nac adnoddau cyfreithiol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Bil arfaethedig.

Hoffwn ddiolch ichi am yr ystyriaeth barhaus rydych yn ei rhoi i'r mater hwn.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.